

Elisabeth I

Ar ddiwrnod coroni'r Frenhines Elisabeth II, dros hanner canrif yn ôl bellach, anogwyd Prydeinwyr i ddisgwyl ail 'oes Elisabeth'. Dair blynedd cyn hynny roedd J. E. Neale wedi sôn am wychder oes yr Elisabeth gyntaf, 'oes aur' meddai ei deiliaid, cyfnod 'gydag ysbryd cenedlaethol afieithus' a'r pwyslais 'ar fenter a'r unigolyn'. Roedd yn oes chwyldroadol gyda theyrn ar yr orsedd oedd yn amharod i wynebu chwyldro ond a oedd yn abl i 'bersonoli emosiwn y genedl heb fod yn ddysgedigaethol. Dyna'r paradocs felly – chwyldro gyda chymedroldeb wrth y llyw. Roedd angen rhinweddau personol anghyffredin, dawn eithriadol a lwc dda ar gyfer y rôl.' Rheolai a hybai'r Frenhines a'r Cyngor egni eithriadol y genedl, ac o'r ddau y Frenhines oedd bwysicaf: 'y Frenhines ei hun oedd yn cynnal emosiwn y genedl'. Y canlyniad fu cyfnod o newid, o ehangu egniol dramor, o ffyniant a'r diwylliant yn blodeuo yn wych. Yn fwy na dim, roedd y genedl wedi llwyddo i ennill cydbwysedd, diolch i'r Frenhines.

Heddiw, nid yw'r addewid am ail oes Elisabeth wedi ei gyflawni. Y nodyn chwerv cyntaf fu argyfwng Suez ac yn raddol sylweddolodd Prydeinwyr nad ydynt bellach yn ddeiliaid gwlad sy'n rymus yng ngolwg y byd. Mae eraill wedi llwyddo'n well o safbwynt yr economi, yn enwedig ein cyn-elyniôn. Mae'r frenhiniaeth dan fygythiad. Ymddengys fod yr Undeb yn ymddatod. Yn theatrau Llundain, a oedd yn ysblennydd yn oes yr Elisabeth gyntaf, cyflwynir dramâu cerdd am gyfnodau di-ben-draw ac y mae ein prif dŷ opera mewn dyled. Damien Hirst sydd gennym yn lle Nicholas Hillyard.

Dadl yr erlynwyr

Erbyn hyn mae haneswyr wedi dechrau crafu'r wyneb a gweld y metel diwerth tu ôl i'r aur yng nghyfnod yr Elisabeth gyntaf. Roedd cyfoeth gan rai a llawer o bobl eraill yn wynebu tloedi cynyddol. Yn y byd rhyngwladol, pŵer eilradd oedd Prydain ar ei gorau.

Ni chafodd anturiaethau Drake ac eraill fawr o effaith barhaol gan mai gydag oes y Stiwartiaid yn hytrach nag oes y Tuduriaid y gwelwyd y cyfnod pwysig o wladychu. Ddeng mlynedd yn ôl trodd Christopher Haigh lygaid beirniadol ar y Frenhines ei hun. Bwli oedd hi ac 'fel y rhan fwyaf ohonynt ... roedd yn poenydio'r gwan ac yn ildio i'r cryf'. 'Bu farw â neb yn ei charu a fawr neb yn galaru ar ei hôl, ac arni hi ei hun roedd y bai.' 'Ni cheisiodd ddatrys problemau dim ond eu hosgoi.' 'Rhith fu ei deng mlynedd ar hugain ar yr orsedd ac fe'u dilynwyd gan bymtheng mlynedd o ddadrith.' Yn benodol, yn ôl Haigh, methodd roi arweiniad a chefnogaeth i'r clerigwyr Protestannaidd; gwrthododd ddarparu ar gyfer yr olyniaeth, nall ai trwy briodi neu drwy enwi olynnydd; gadawodd i garfan glicaidd dra-arglwyddiaethu ym maes gwleidyddiaeth; roedd yn hwyrfrydig i weithredu yn wyneb bygythiadau o dramor; gadawodd i chwyddiant ddi-hysbyddu ei chyllid.

Amddiffyn a barnu

Symleiddiad fyddai awgrymu bod y dehongliad hynod feirniadol hwn o deyrnasiad Elisabeth yn deillio o'n hymdeimlad pesimistaidd ynghylch ein cyfnod cyfoes. Ond y maent yn ddrych i'w gilydd. Ychydig o blith haneswyr heddiw fyddai'n ysgrifennu yn arddull rhethregol Neale neu Rowse, er bod Roy Strong yn ymylu ar hynny. Byddai'r mwyafrif am ymatal mwy na Neale neu Haigh wrth ddarlunio'r oes a'r Frenhines, gyda llai o liw aur a llai o ddu. I ddechrau, mae rhai o'r honiadau a wnaed yn dal yn ddilys. Roedd y llwyddiannau diwyllianol ac addysgol yn real, hyd yn oed os lleiafrif yn unig oedd yn manteisio arnynt. Llwyddodd Lloegr i orosi'r bygythiadau o Ffrainc ar ddechrau'r cyfnod ac o Sbaen yn ddiweddarach. Sefydlwyd Eglwys Loegr ar sylfaen gadarn ac roedd wedi ennill teyrngarwch y mwyafrif o'r genedl erbyn tua 1580. Ar waethaf gwrthryfel Essex yn 1601 a'r anfdolnwydd yn y Llys, mae llesgedd yr ymgyrch chwerrthinllyd honno yn profi cydlynrwydd y llywodraeth ac y

mae absenoldeb unrhyw brotest ddifrifol yn ystod cyfnodau caled yr 1590au yn tystio bod y Goron yn gadarn ei rheolaeth. Os na lwyddodd y gymdeithas yn Lloegr i sefydlu'r harmoni y mae Neale yn ei ganmol, fe lwyddodd i osgoi'r cythrwfl a llawer o'r trueni a geid ymysg ei chymdogion ar y cyfandir. Mae Elisabeth yn haeddu peth o'r clod am hynny, er bod llawer o glod hefyd yn ddyledus i'w phrif gynghorwyr – y teulu Cecil, Walsingham a hyd yn oed Iarll Caerlŷr (Leicester) amwys ei gymeriad.

Y cyhuddiad mwyaf difrifol a ddygwyd yn erbyn Elisabeth oedd iddi fethu â gofalu am olynnydd i'r orsedd. Roedd ei chynghorwyr yn ei hannog yn gyson i briodi ac er iddi drafod gyda nifer o ymgeiswyr am ei llaw, yn y diwedd fe'u gwrthododd i gyd. Yna, pan nad oedd priodi bellach yn ddewis, ar waethaf ymdrechion y Cyngor a'r Senedd i'w pherswadio, gwrthododd enwi olynnydd. Er yr honnid ei bod wedi enwi Iago ar ei gwely angau, mae'n fwy tebygol mai'r Cyfrin Gyngor a ddyfeisiodd y stori hon ar ôl i Elisabeth farw. Pe bai hi wedi marw unrhyw bryd cyn i Mari Brenhines y Sgotiaid gael ei dienyddio yn 1587, mae'n debyg y byddai rhyfel cartref wedi ymledu. Pam na bu iddi weithredu i rwystro hyn? Mae'n annhebygol fod ganddi wrthwynebiad sylfaenol i briodi, naill ai am resymau seicolegol na rhai gwleidyddol. Ond roedd dewis cymar yn anodd. Naill ai roedd yr ymgeiswyr yn bersonol yn annerbyniol i lawer o'i chynghorwyr, fel Iarll Caerlŷr, neu roedd eu crefydd Gatholig yn rhwystr, fel Anjou. Mae'n ymddangos fod Elisabeth ar brydiau yn fodlon, a hyd yn oed yn awyddus, i ystyried priodi, ond nid i'r graddau y byddai'n barod i wynebu gwrthwynebiad o fewn ei Chyngor. Byddai wedi bod yn ddewis anodd ac, yn wahanol i'n Prif Weinidog presennol, nid oedd hi'n hoff o wneud dewis anodd. Roedd hi'n ffodus, a'i deiliaid hwythau, ei bod wedi byw cynifer o flynyddoedd, nes i'r broblem ei datrys ei hun bron.

O safbwynt materion tramor nid oedd ei phetruster lawn mor niweidiol. Roedd Elisabeth yn deyrn anghyffredin yn yr unfed ganrif ar bymtheg gan ei bod o ddewis yn cadw draw pan oedd ymrafael rhyngwladol. Nid oedd ennill bri trwy goncro yn bwysig iddi. Nid oes unrhyw arwydd ei bod yn dilyn egwyddorion clir a phendant wrth ystyried polisi tramor ac yn sicr roedd yn casáu dod i benderfyniad neu orfod ei hymrwymo ei hun. Ond yn aml roedd rheswm da dros hynny. Mae'n debyg y byddai wedi cytuno â Harold Macmillan mai 'gwneud dim yw'r gamp y rhan fwyaf o'r amser' ac yn ei chyfnod hi roedd yn rheol ddigon diogel. Roedd peryglon mawr o fod yn rhan o derfysgoedd crefyddol Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd a bu Elisabeth yn ddoeth i gadw at rôl gynorthwyol. Ond fe gymerodd ran sylweddol yn rhyfeloedd Iwerddon. Yn ystod pymtheng mlynedd olaf ei theyrnasiad gwariwyd bron hanner y gyllideb filwrol arnynt. Eto, pa mor drychinebus bynnag fu etifeddiaeth Wyddelig y Tuduriaid, bychan oedd yr effaith ariannol a

diplomyddol o'i chymharu â cholledion Philip o Sbaen yn ei ymrafael â'r Iseldirwyr a'r Ffrancwyr. O'u cymharu nid oedd y trethi'n drwm yn Lloegr ac ar ddiwedd theyrnasiad Elisabeth nid oedd y ddyled mor fawr fel nad oedd yn bosibl delio â hi.

Yn sicr, fe fethodd Elisabeth â bodloni ei deiliaid Protestannaidd mwyaf brwd. Er bod arweinwyr yr Eglwys ar ddechrau ei theyrnasiad wedi gobeithio y byddai yn cwblhau'r Diwygiad Seisnig, dim ond ychydig o newidiadau i Ddeddf Sefydlogi 1589 a ganiatawyd ganddi, a rhwystrodd ddatblygiad pregethu Protestannaidd. Yn ystod ei blynnyddoedd olaf mae'n bosibl fod ei chefnogaeth i ymgyrchoedd dynion fel Whitgift a Bancroft yn erbyn y clerigwyr piwritanaidd wedi hybu'r rhaniadau o fewn yr Eglwys a barodd rwyg yn ystod cyfnod ei holynwyr. Ond roedd ei chymedroldeb yn ystod blynnyddoedd cyntaf ei theyrnasiad yn ôl pob tebyg yn bwysig, er mwyn ennill cydymdeimlad ceidwadwyr at yr Eglwys newydd. Unwaith eto, roedd amharodrwydd i ddangos ei hochr wedi bod o fantais.

Efallai mai ei phrif gryfder oedd ei dawn arbennig i'w harddangos ei hun a chreu delwedd sydd wedi para hyd ein dyddiau ni. Ond mwy am hyn eto. Yn nesaf o ran pwysigrwydd roedd ei gallu i ddewis, ac yn bennaf oll, i ymgynnal a chefnogi cynghorwyr doeth ac effeithiol. Ym mlynnyddoedd cynnar ei theyrnasiad câi arweiniad William Cecil, yr Arglwydd Burghley, Thomas Smith a Francis Walsingham ac yna yn ei blynnyddoedd olaf, Robert Cecil, a'r rhain oedd yn llywio ei pholisïau. Profodd Burghley a Walsingham yn enwedig eu bod yn gwbl gyfarwydd â phob agwedd ar bolisi – cartref, rhyngwladol, crefyddol, milwrol, ariannol. Roedden nhw'n bâr da. Byddai Burghley fel arfer yn mynnu bod yn ochelgar a Walsingham yn barod i weithredu. Yn bwysicach na dim, roedd Elisabeth yn eu cefnogi i'r carn, yn wahanol i'w thad, Harri VIII, a adawodd i'w ddau weinidog mwyaf abl farw. Oherwydd bod gan ei chynghorwyr, yn enwedig Burghley, ffydd ynnddi, gallai Elisabeth sicrhau sefydlogrwydd gwleidyddol, yr hyn fu'n ddiffyg yn anffodus yn ystod cyfnodau ei thad, ei brawd a'i chwaer.

Tebyg y byddai'r mwyafrif o haneswyr nawr yn derbyn, gydag ambell rybudd a pheth anghytuno, y farn hon ar wendidau a rhagoriaethau Elisabeth fel teyrn. Nid oedd yn arweinydd rhamantus nac yn arwres Brotestannaidd ac yn sicr nid yn sefydlydd yr Ymerodraeth Brydeinig. Negyddol a damweiniol oedd ei rhinweddau. Roedd yn ffodus, a Lloegr hefyd yn ffodus, fod y môr yn eu hamddiffyn rhag ymosodiadau o dramor. Bu fyw yn ddigon hir i'w deiliaid ddygymod â'i threfn grefyddol ac i broblem yr olyniaeth ei datrys ei hunan. Yn aml, er nad bob amser, roedd ei hamharodrwydd i weithredu yn gryfder wrth ymwneud â gwladwriaethau eraill. Dewisodd gynghorwyr da ac roedd yn ardderchog am greu delwedd.

Y Llys Brenhinol

Erbyn hyn dengys haneswyr lai o ddiddordeb yn y cloriannu hwn a rhoi mwy o sylw i natur Llys Elisabeth, rôl arddangos a chreu delwedd a phwysigrwydd rhyw. Roedd y Llys yn gasgliad amrywiol, a hwnnw ar wasgar, o ddynion a merched – dynion yn bennaf – oedd yn newid yn gyson, ac yn aml yn symud o blasty i blasty ac ar gylch i gartrefi bonheddwyr. Roedd yn westy i'r teyrn a'i dilynwyr, yn ganolfan llywodraeth, yn theatr i arddangos ac yn farchnadle i ddeisyf ac i rannu nawdd. Cyfunai ddefod a chystadleuaeth ddi-drefn am swyddi, statws ac elw. Edrychid ar y Llys fel model o gymdeithas rinweddol ac uffern o dwyll ac anobaith. Yn *The Fairie Queene* galwodd Spenser y Llys yn 'feithrinfa gysegredig rhinwedd' ond yn *Colin Clouts Come Home Again* fe'i disgrifiodd fel 'cartref y drwg'

*'Lle mae pobun yn ceisio trwy falais a thrais
ddarostwng eraill i anfri a chywilydd, felly i'w
ddyrchafu ei hun; a'r sawl sy'n ymgodi rwyddaf
yw'r un a all ymarfer ffraethineb ffals gan newid
cyfeiriad yn gelfydd a bod yn llaw ystryw.'*

Eto, pa mor rhwystredig a maleisus bynnag y

gallai'r Llys fod, roedd yn rhaid i ddyn uchelgeisiol ei fynychu a dringo'r ysgol dwyllodrus i ennill dyrchafiad. I'r Frenhines, y Llys oedd y llwyfan lle gallai ei harddangos ei hun, rhannu nawdd a chadw cysylltiad â'r teuluoedd bonheddig. Roedd hefyd yn gartref i ddiwylliant a difyrwch. Ym Mhlas Whitehall llwyfennid dramâu gan bobl broffesiynol fel Shakespeare a byddai gwŷr Llys yn ymryson mewn twrnameintiau cyhoeddus; mewn seremonïau lledgyhoeddus byddai'r Frenhines yn iacháu'r sawl oedd yn dioddef o glefyd y brenin ac yn y rhanbarthau byddai'n cwrdd â'i deiliaid ac yn hela gyda'i gwŷr Llys.

Trwy'r rhan fwyaf o flynyddoedd ei theyrnasiad bu Elisabeth yn fedrus yn ei dull o drin ei Llys. Rhennid nawdd yn gymharol eang a chydweithredai ei chynghorwyr i bennu polisi ac i lywodraethu. Ar un adeg tybid bod Robert Dudley, Iarll Caerlŷr a William Cecil, Arglwydd Burghley yn arwain dwy garfan oedd yn elyniaethus i'w gilydd. Ond ymddengys nawr eu bod yn cytuno'n fras ar brif faterion gwleidyddol y cyfnod ac mai dim ond ambell waith rodden nhw'n anghytuno, yn bennaf ar y mater o ŵr i'r Frenhines. Yn ystod deng mlynedd olaf ei theyrnasiad gwelwyd mwy o densiynau a gafael y Frenhines yn llacio. Roedd



Un o sawl copi o'r darlun a elwir portread yr Armada, 1588 – mae'n enghraifft o'r modd gofalus y cyflwynid delwedd y Frenhines, gyda symbolau o'i grym (yma, llynges Philip wedi ei dinistrio) ac ni chât Elisabeth heneiddio.

gofynion y rhyfeloedd yn faich. Gwelwyd mwy o ddrwgdeimlad rhwng y carfannau pan ddyrchafwyd Robert Devereux, Iarll Essex, i ffafr y Frenhines. Wrth wynebu ei flynyddoedd olaf roedd Burghley yn benderfynol o drosglwyddo grym i'w fab, Robert Cecil, ac yn gweld Essex yn wrthwynebydd roedd yn rhaid ei wrthsefyll. Roedd Essex yntau yn fiin am fod y teulu Cecil a'u dilynwyr yn cadw'r swyddi iddynt eu hunain. Nid oedd Elisabeth bellach cystal am gadw'r ddysgl yn wastad ac yn y diwedd oherwydd ei rwystredigaeth fe wrthryfelodd Essex. Eto, er ei bod yn ymddangos nad oedd rheolaeth ar y carfannau, llwyddodd Robert Cecil i adfer trefn yn fuan a thrafodwyd, yn llwyddiannus, yr olyniaeth a fu'n gymaint o fygythiad i'r deyrnas.

Delweddau o'r Frenhines

Roedd delwedd y Frenhines, o ddechrau hyd ddiwedd ei theyrnasiad, dan reolaeth ofalus, pa un a gâi ei chyflwyno mewn gorymdeithiau, mewn seremonïau cyhoeddus neu mewn portreadau. Ond, pwy oedd yn rheoli'r ddelwedd? Yn union cyn ei choroni yn 1559, gorymdeithiodd Elisabeth drwy Lundain, o'r Tŵr i Westminster. Yn ôl adroddiad ar y pryd roedd y Ddinas wedi ei thrawsnewid yn 'llwyfan i arddangos gwychder ysblennydd Tywysoges hael ei chalon ymysg ei deiliaid cariadlon'. Ymatebodd y bobl drwy lwyfannu cyfres o gyflwyniadau llonydd ar y daith, a dangosodd Elisabeth ei dawn i ennill eu calonnau drwy ymateb yn bersonol. Ond nid oedd y neges mor gwbl syml. Yn y cyflwyniad llonydd olaf croesawyd Elisabeth fel Debora, 'barnwr ac adferwr Israel'. Roedd Debora yn arwres i'r Protestaniaid ac felly dyma atgoffa'r Frenhines fod ei phobl yn dymuno adfer y 'gwir' grefydd wedi helyntion teyrnasiad ei chwaer, Mari.

Ai'r awdurdodau eglwysig oedd wedi llunio'r neges? Ai chynghorwyr Protestannaidd y llywodraeth newydd? Ynteu ai'r Frenhines ei hun oedd yn mynegi ei bwriadau? Ni allwn farnu i sicrwydd.

Ar y llaw arall, roedd y portreadau o Elisabeth yn amlwg dan reolaeth y Frenhines ei hun a'i chynghorwyr, fel y gellid cyflwyno delwedd addas. Yn gynnar yn ei theyrnasiad gorchmynnodd y Cyfrin Gyngor fod arlunwyr i ddilyn patrwm o'i hwynepryd a wnaethpwyd gan berson oedd wedi ei benodi i'w lunio; ac o hyn allan ym mhob portread mae ei hwyneb yn ymddangos fel mwgwd heb fawr ddim amrywiaeth. Manylion cywrair ei gwisg sy'n ennyn diddordeb a'r symbolau a gyflwynir: Elisabeth yn sefyll ar fap o'i theyrnas; neu gydag ermin, symbol o wryfyddod; neu gydag armada fawr Sbaen wedi ei gorchfygu yn y cefndir.

Y broblem fawr wrth gyflwyno a darlunio Elisabeth oedd ei rhyw. Byd y gwryw oedd hwn a chyfrifid nad oedd merched yn addas i lywodraethu. Roedd Calfin wedi dweud fod llywodraeth benyw yn 'gwyro oddi wrth drefn sefydlog a chyntefig byd natur; dylid

ei chyfrif yn farn ar ddydd am ei fod wedi bod yn esgeulus o'i hawliau, yn union fel caethwasiaeth'. Gallai ei deiliaid ddygymod â'i llywodraeth trwy ei chyfrif yn wraig eithriadol, wedi ei hachub gan Dduw o garchar yn ystod teyrnasiad Mari yn un swydd i adfer y gwir grefydd. Ond eto, nid oedd hyn yn llawn digon i sicrhau ei bod yn dderbyniol fod merch yn llywodraethu yn uniongyrchol. Y cam delfrydol fyddai i'r Frenhines briodi ac yna byddai dyn yn ei rheoli hi. Ond gan na ddangosodd Elisabeth fawr o awydd i wneud hynny ac am fod gwendidau'n perthyn i bob darpar gymar, amlygai ei gwŷr Llys serch urddasol. Roedd Elisabeth yn ferch bur i'w chwennych, fel a ddarlunnid yn y rhamantau canoloesol, a'i gwŷr Llys yn ceisio ennill ei serch mewn twrnameintiau a ffug ymrysonau. Mantais arddangos sifalri oedd fod gan wŷr y Llys rôl wrywaidd y gallent ragori ynddi gan fynegi eu hedmygedd o'r Frenhines ar yr un pryd. Ond y ffaith oedd mai merch oedd yn rheoli.

Gallai Elisabeth a'i chynghorwyr benderfynu sut i drefnu ei phortreadau a phrif seremonïau'r Llys ond nid oedd mor hawdd lliwio'r gair ysgrifenedig. Hyd yn oed yn y cerddi oedd yn moli yn bennaf, ceid amheuon a beirniadaeth, er eu bod yn gudd yn aml. Mae *Faerie Queene* Spenser, ymysg pethau eraill, yn emyn o fawl i Elisabeth, a bortreadir fel Gloriana, Belpheobe a bodau chwedlonol eraill. Ond yn Llyfr V mae gan Spenser eiriau hallt i'w dweud am reolaeth merch [t.37]. Mae'r llinell olaf yn cyfeirio at Elisabeth, ond prin y byddai hi'n croesawu neges yr adran hon o'r gerdd.

Cyfrannodd Walter Raleigh, un o'i phrif wŷr Llys, fwy na'i siâr i'r moli ond yn y *21st Book of the Ocean to Cynthia* mae'n mynegi dadrith llwyr gyda'i ymdrech i ennill ei serch:

*Rwy wedi afradu deuddeng mlynedd yn y frwydr hon,
Deuddeng mlynedd o gyfnod hapus ieuencid
A minnau yn eu canol, a bellach fe'u gwastraffwyd.
O'r cyfan a aeth heibio, nid erys ond gofid.*

Does ryfedd na chyhoeddwyd y gerdd yn ystod ei fywyd nac yn wir hyd y ganrif hon. Erbyn diwedd oes Elisabeth doedd fawr o lewyrch ar y gêm-serch. Galwodd ei mab bedydd, John Harington, hi yn 'foneddiges oedd yn gaeth i'w siambr o olwg y rhan fwyaf o'i deiliaid a'i gweision, nad oedd yn ymddangos ond ar ddyddiau gŵyl'. Ond ni chymerodd fawr ddim amser iddi ddod i fri eto, ac Iago I a'i feirniaid yn meithrin y ddelwedd ohoni. Mae'r delweddau hynny, a luniwyd gan y Frenhines, ei gwŷr Llys a'i chynghorwyr wedi para hyd heddiw, cymaint oedd eu grym.

Ond roeddent yn llawer mwy cymhleth nag a dybiwyd. Dichon mai '*Semper Eadem*' (Bob amser yr un fath) oedd arwyddair Elisabeth, ond y ffaith yw fod y darluniau o'r Frenhines yn amrywiol, yn gwrthdweud ei gilydd ac yn gyfnewidiol. Dyna'u

cyfaredd. Rydym wedi dysgu deall rôl a phwysigrwydd creu delwedd ym myd gwleidyddiaeth gyfoes ac y mae haneswyr nawr yn dechrau defnyddio'r deall hwnnw wrth ystyried oes Elisabeth I gan archwilio, yn fwy manwl nag o'r blaen, natur y darlun a gaed ohoni a sut dderbyniad oedd i'r ddelwedd ymysg ei deiliaid.

Dyfynnwyd o

- J. Neale, *Queen Elizabeth* (Cape 1934) a 'The Elizabethan Age', Darlith Creighton, 1950, *Essays in Elizabethan History* (Cape 1958)
- C. Haigh *Elizabeth I* (Longman 1988)

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today o *History Review*, Mawrth 1998: *Elizabeth I*, Penry Williams

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Dylunydd: Richard Huw Pritchard

Cyfieithydd: Eirlys Roberts

Elizabeth I of England (7 September 1533 – 24 March 1603) was the Queen of England and Ireland. She was queen from 17 November 1558 until she died in March 1603. She was also called "good queen Bess" or "the virgin queen" or "Gloriana". She was the daughter of King Henry VIII of England and Anne Boleyn, his second wife, and was the last of the Tudor dynasty of monarchs. When Boleyn was disgraced at court and executed, Elizabeth's life became a troubled one, including being locked up in the Tower of